Ysgol GWRh Glanyfferi
Ferryside VCP School







‘Plannu heddiw, medi yfory!’

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

The Governing Body’s Annual Report to Parents

2024 - 2025

Y Corff Llywodraethol
The Governing Body

Enw ***Name***	**Math o lywodraethwr** ***Type of Governor***	**Tymor** ***Term***
Cllr L Davies	Cadeirydd/ Chair Cynrychiolydd yr ALl / LA Representative	Awst / August 2026
Mrs Rh Eyton-Jones	Is- Gadeirydd / Vice- Chair Cynrychiolydd y Sefydliad / Foundation Representative	Medi / September 2027
Mrs Michelle Evans	Pennaeth (Dros Dro) / Headteacher (Acting)	-
Mrs L Howells	Cynrychiolydd Athrawon / Teacher Representative	Ionawr / January 2028
Mrs C Lilly	Cynrychiolydd y Gymuned / Community Representative	Mai / May 2027
Cllr Alicia Dalton	Cynrychiolydd y Gymuned / Community Representative	Mai/ May 2027
Rev. P Johns	Bishop's Visitor/ Ymwelydd yr Esgob	-
Mrs K Morgan	Cynrychiolydd yr ALl / LA Representative	Awst / August 2028
Mrs R Corbett	Rhiant Llywodraethwraig / Parent Governor	Mawrth / March 2027
Dr L Thomas	Rhiant Llywodraethwraig / Parent Governor	Mawrth / March 2028
Mrs K Hayhurst	Rhiant Llywodraethwraig / Parent Governor	Medi/ September 2028

Cadeirydd y Llywodraethwyr ***/ Chair of Governors:***
Cllr Lewis Eldred Davies
c/o Ysgol GWRh Glanyfferi, Ferryside, Caerfyrddin, SA17 5TB
lewis.davies@ferryside.ysgolccc.cymru

Clerc i'r Corff Llywodraethol / ***Clerk to the Governing Body*****:**
Mrs Helen Williams
Rheolwr Busnes / *Business Manager*
helen.williams@abergwili.ysgolccc.cymru

Staff Ysgol / *School Staff*

Pennaeth (Dros Dro) / *Headteacher (Acting):*
Mrs Michelle Evans

Staff Addysgu / *Teaching Staff:*
Mrs Laura Howells

Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol / *Additional Learning Needs Coordinator:*
Mrs Laura Howells

Cynorthwywyr / *Assisstants:*
Mrs Gemma Burton
Miss Leah Bonnell

Rheolwr Busnes / *Business Manager:*
Mrs Helen Williams

Gofalwr / *Caretaker:*
Mrs Corinna Buckley

Glanhâwr / *Cleaner:*
Mr Jason Dickson

Staff y Gegin / *Kitchen Staff:*
-

Amseroedd yr Ysgol / *School Times*

Drysau'n agor / *Doors open*: 8:45am
Cofrestri / *Registration*: 9:00am
Gwers 1 / *Lesson 1*: 9:10 – 10:30am
Egwyl / *Breaktime*: 10:35 – 10:50am
Gwers 2 / *Lesson 2*: 10:50 – 12:00pm
Cinio / *Lunch*: 12:00 – 1:00pm
Gwers 3/ Lesson 3: 1:00 – 2:35
Egwyl/ Breaktime: 2:35- 2:45
Gwers 4/ Lesson 4: 2:45 – 3:15

Gair wrth Gadeirydd y Llywodraethwyr / *A word from the Chair of Governors*

Wrth edrych yn ôl ar flwyddyn academaidd 2024 i 2025, mae'n bleser mawr gennyf fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i chi fel rhieni ac aelodau gwerthfawr o'n cymuned ysgol. Bu'r flwyddyn yn gyfnod llawn gweithgarwch, cydweithio a chyflawniadau rhagorol gan ein disgyblion a'n staff ymroddedig.

Mae'n galonogol gweld sut mae Ysgol GWRh Glanyfferi yn parhau i ffynnu fel ysgol feithrinol Gymreig, yn meithrin dwyieithrwydd, gofal a balchder yn ein treftadaeth Gristnogol a Chymreig. Mae'r ethos "Plannu heddiw, medi yfory" yn parhau i ddisgleirio ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, o'r gwaith yn yr ystafelloedd dosbarth i'r cysylltiadau â'n cymuned leol.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Mrs Michelle Evans, ein Pennaeth dros dro, am ei harweiniad medrus a'i hymrwymiad di-ffael i les ac addysg y disgyblion. Diolch hefyd i'r holl staff am eu gwaith caled, eu creadigrwydd a'u gofal, i'n llywodraethwyr am eu cefnogaeth barhaus ac, wrth gwrs, i chi fel rhieni am eich partneriaeth, eich ymddiriedaeth a'ch brwdfrydedd.

Bu'n flwyddyn lawn o brofiadau cyffrous, o ymweliadau addysgol i brosiectau eco, o weithgareddau Calennig i ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae pob digwyddiad wedi cryfhau'r teimlad o gymuned sy'n greiddiol i'n hysgol. Mae'n fraint gweld ein disgyblion yn datblygu'n unigolion caredig, chwilfrydig ac uchelgeisiol, gyda pharch tuag at ei gilydd a'u hamgylchedd.

Wrth edrych ymlaen at flwyddyn 2025 i 2026, rydym yn hyderus y bydd yr ysgol yn parhau i adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfleoedd gorau posibl i gyrraedd ei botensial.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant ein hysgol yn ystod y flwyddyn hon. Gyda'n gilydd, gallwn barhau i sicrhau bod Ysgol GWRh Glanyfferi yn le lle mae pob plentyn yn tyfu, yn dysgu ac yn ffynnu.

Cllr Lewis Eldred Davies
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Gair wrth Gadeirydd y Llywodraethwyr / *A word from the Chair of Governors*

As Chair of Governors, I am delighted to present this Annual Report for the 2024 to 2025 academic year. It has been a year filled with learning, laughter and growth, as our pupils, staff and community have continued to work together in the spirit of our school motto, *"Plannu heddiw, medi yfory – Plant today, harvest tomorrow."*

Ferryside VCP School continues to thrive as a Welsh-medium Church in Wales school, where bilingualism, care and creativity are at the heart of all that we do. Our pupils are nurtured to become confident, kind and curious learners who take pride in their culture, language and community.

On behalf of the Governing Body, I would like to extend heartfelt thanks to Mrs Michelle Evans, Acting Headteacher, for her excellent leadership, and to all the staff for their commitment and enthusiasm. I also wish to thank my fellow governors for their time and guidance, and parents for their constant support and partnership.

The past year has seen the school engage in a wide variety of experiences, from eco projects and community events to creative celebrations such as St David's Day and Calennig. These opportunities have not only enhanced learning but also strengthened the caring ethos that defines our school.

As we look ahead to the coming year, we do so with optimism and pride, confident that Ysgol Glanyfferi will continue to provide an inspiring and inclusive environment where every child can flourish.

Cllr Lewis Eldred Davies
Chair of Governors

Cysylltiadau gyda'r Gymuned



- Cynhaliwyd ffair haf yr Ysgol lle bu'r disgyblion yn brysur yn gwerthu cychod hwylio, bomiau baddon a bwyd adar i enwi dim ond rhai - codwyd cyfanswm o £197.70!
- Braf oedd cael croesawi Sian James a Sparc i'r Ysgol i drafod diogelwch tân gyda'r disgyblion.



- Bu'r disgyblion a staff wrth eu boddau yn ymweld ag Eglwys Saint Isfael. Diolch i Rhinedd, Siân a Dennis am ein cludo a'n diddori.
- Cymerodd y disgyblion ran yng ngwasanaeth diolchgarwch yr ysgol yn Eglwys St Thomas, gan ddangos eu diolch am y byd y maent yn byw ynddo.
- Cawsom wahoddiad i fynychu Gwasanaeth Cofio Eglwys St Thomas, gan ganiatáu i'r disgyblion gynyddu eu gwybodaeth am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, nawr ac yn y gorffennol.









- Gweithgareddau canu Calennig o amgylch y pentref.
- Dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy gynnal noson cawl a chân yng nghwmni rhieni, llywodraethwyr a thrigolion y pentref.
- Mwynhaodd y disgyblion helpu'r Cyngor Cymuned i blannu coed ffrwythau yn y parc lleol gan eu galluogi i ddeall eu dyletswyddau tuag at gynaliadwyedd ein cymuned a'n planed.
- Cyflwynwyd eitemau Nadoligaidd y disgyblion o amgylch coeden Nadolig y pentref gan wahodd trigolion y pentref i ymuno mewn canu carolau.





- Dylunio cerdyn Nadolig ar gyfer Nia Griffiths AS Llanelli.
- Croesawu ein ficer newydd- Tad Glyn i'r plwyf, cymuned ac i'r ysgol. Ymweld â'r Eglwys ar gyfer seremoni bedyddio.
- Ymweliad gan aelodau bad achub y pentref. Codwyd swm o £57.00.
- Fel rhan o thema ein hysgol 'Lleoedd Rhyfeddol' braf oedd derbyn y cynnig caredig gan Fferi Glansteffan i groesi'r dŵr i draeth Llansteffan.

Blwyddyn brysur yn llawn hwyl a sbri!

Links with the Community

- The School's summer fete was held, where the pupils were busy selling yachts, bath bombs and bird food to name but a few- raising a grand total of £197.70!
- It was nice to welcome Sian James and Sparc to the School to discuss fire safety with the pupils.



- The pupils and staff loved visiting Saint Ishmel's Church. Thanks to Rhinedd, Siân and Dennis for transporting us and keeping us interested.
- The pupils took part in the school's thanksgiving service at St Thomas' Church, showing their gratitude for the world in which they live.
- We were invited to attend the St Thomas Church Remembrance Service, allowing the pupils to increase their knowledge of their culture, their community, their society and the world, now and in the past.













- The pupils' Christmas performances were presented around the village Christmas tree- inviting the residents of the village to join in carol singing.
- Designing a Christmas card for Nia Griffiths Llanelli MP.
- Welcoming our new vicar - Father Glyn to the parish, community and to the school. Visit to the Church for a baptism ceremony.
- As part of our school's theme 'Wonderful Places' it was nice to receive the kind offer from Glansteffan Ferry to cross the water to Llansteffan beach.



- ‘Calennig’ singing activities around the village.
- Pupils celebrated St David's Day by hosting an evening of song and dance in the company of parents, governors and residents of the village.
- Visit by members of Ferryside lifeboat. A sum of £57.00 was raised.
- The pupils enjoyed helping the Community Council to plant fruit trees in the local park enabling them to understand their duties towards the sustainability of our community and our planet.

A busy year full of fun and excitement!

Addysg yn Ysgol GWRh Glanyfferi

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru, cyfrwng Gymraeg yw Ysgol GWRh Glanyfferi. Mae disgyblion yn cael eu hymdrochi yn yr iaith Gymraeg wrth ddechrau eu taith gyda ni yn y Meithrin. Y prif iaith ar gyfer cyflwyno gwybodaeth a gwersi yn y ddau ddosbarth ydy Cymraeg. Er hyn, dysgir Saesneg yng ngwersi o Flwyddyn 3 i fyny ac mae pwyslais ar ddwyieithrwydd yn sicrhau fod disgyblion a chyrhaeddiad uchel yn y ddwy iaith erbyn diwedd Blwyddyn 6. Mae'r Pennaeth a staff yn cwrdd â darpar rieni cyn i'w plant ddechrau gan esbonio manteision dwyieithrwydd. Atgyfnerthir hyn gan yr holl staff yn ystod cyfarfodydd gyda rhieni, a.y.b.

Yr ysgol uwchradd prif ffrwd ar gyfer Ysgol GWRh Glanyfferi ydy Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Cynllunnir gweithgareddau yn ystod Blynyddoedd 5 a 6 ynghyd â nosweithiau rhieni i hwyluso y broses pontio.

Mae'r disgyblion yn dilyn cwricwlwm thematig. Trefnir a chynllunnir themâu yn ofalus ar gyfer pob ystod oedran gan sicrhau trosolwg cyfan o'r Cwricwlwm i Gymru.

Gyda'r Cod ADY wedi'i addasu, ac yn ei le, bydd hyn yn hyrwyddo ymagwedd person-ganolig gan gynnwys mewnbwn oddi wrth yr holl asiantaethau addas gyda dilyniant priodol ar gyfer anghenion yr unigolyn. Ffurfir Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag angen, gydag adolygiadau a diweddariadau yn cael eu hystyried yn rheolaidd. Ffurfir grwpiau ymyrraeth yn seiliedig ar ganlyniadau profion a gyflenwir ac asesiadau athro. Dysgir disgyblion sydd ag anghenion mewn agweddau penodol mewn grwpiau. Defnyddir strategaethau megis 'ELSA', 'Numicon', grwpiau darllen a Blociau Bendigedig.

Mae cynnydd pob disgybl yn cael ei dracio yn ofalus ac yn rheolaidd gan ddilyn systemau'r ysgol. Parha'r ysgol yr ymdrech i atgyfnerthu deallusrwydd o bwysigrwydd materion amgylcheddol. Mae'r Cyngor Eco/Ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn chwilio am ffyrdd y gall arferion sydd yn garedig i'r amgylchedd gael eu hymgorffori i fywyd bob dydd yr ysgol. Rhan holl bwysig o'r ysgol yw llais y plentyn ac maent wedi bod yn casglu syniadau a gweithredu arnynt.

Tynnir sylw at hyrwyddo bwyta'n iach yn gyson gan hyrwyddo bocsys bwyd iach. Bwytir ffrwyth sydd yn dod o adref yn ystod amser chwarae. Mae bwyta yn iach yn rhan o'r cwricwlwm Iechyd a Lles.

Mae'r ymdrech i wella'r defnydd o Gymraeg o fewn yr ysgol yn parhau. Hyrwydda ein hymgyrch y defnydd o'r iaith gan ein disgyblion, boed yn ei chwarae neu gyda'u gwaith.

Darparwyd brwsys a phast dannedd i'r disgyblion priodol gan Gynllun Gwên a chynhelir sesiwn brwsio dannedd dyddiol yn yr ysgol.

Education at Ferryside VCP School

Ferryside VCP School is a Welsh medium Church in Wales School. Children are immersed in the Welsh language on entry into the Nursery. The main language of instruction throughout both classes is Welsh. However, English is taught in lessons for pupils Years 3 to 6 and an emphasis on bilingualism ensures that pupils achieve high standards in both languages by the end of Year 6. The Headteacher and staff meet with prospective parents prior to their children starting and explains the advantages of bilingualism. All teaching staff in parents' meetings etc reiterates this message.

The mainstream secondary school for Ferryside VCP School is Ysgol Bro Myrddin. Ysgol Bro Myrddin is a Welsh medium school. Joint activities are arranged throughout Year 5 and 6 and parents evenings held so that transition is as smooth as possible.

The pupils follow a thematic curriculum. Themes are arranged and planned carefully for each age range ensuring complete Curriculum for Wales coverage.

With the modified ALN code in place, this allows for a person-centred approach to be implemented with input to all relevant parties at a proportionate rate to the needs of the individual. Individual Development Plans will be created for the pupils that have a need, with reviews and amendments being considered regularly. Intervention groups are formed based on the results of tests administered and Teacher Assessments. Pupils who need extra support in specific areas are taught in groups. Intervention strategies such as 'ELSA', 'Numicon', reading groups and 'Lego Therapy' are used.

Progress, of all learners is regularly and carefully tracked using internal systems. The school continues its effort in reinforcing the importance of environmental issues. School and Eco council meet regularly and look for ways in which environmentally friendly practices can become a part of the school life. Pupil's voice is important, and they have been collecting information and acting on their ideas.


Healthy eating is promoted regularly through encouragement of healthy lunchboxes. Fruit is eaten during break times and brought in from home. Healthy eating is part of the Health and Wellbeing curriculum.

An effort to improve the use of Welsh in school continues. Our initiative to promote the Welsh language within the school continues to encourage pupils to use Welsh outside the classroom as well as inside.


The Design to Smile team have provided pupils with toothbrushes and toothpaste and daily teeth brushing have re-commenced in school.

Ymatebion holiaduron Rhieni


Fel ysgol rydym yn ymfalchio mewn polisi drws agored ac yn gwerthfawrogi unrhyw drafodaeth, pryderon a chanmoliaeth sydd gennychi fel rhieni i rannu gyda ni ynghylch yr ysgol. Rydym eisoes wedi gwerthuso ymatebion eich holiaduron ac o ganlyniad hoffwn rhannu rhai prif agweddau a ddaeth i'r golwg.



Mae hapusrwydd ein disgyblion yn hollbwysig i ni yn yr ysgol gan fod hyn yn sylfaen i daith ddysgu lwyddiannus. Rydym yn defnyddio nifer o strategaethau sy'n datblygu sgiliau iechyd a lles megis 'Speakr', amser cylch, sesiynau ELSA i enwi ond ychydig.





Rhoddir cyfle i holl randdaliaid ein hysgol i fod yn rhan o gynllunio cwricwlwm cytwbwys ar gyfer ein disgyblion. Yn dymhorol mae'r rhieni yn derbyn taflen sy'n nodi thema ein tymor a'r cyfle i rannu syniadau a chysylltiadau perthnasol. Trwy weithgareddau 'llais y plant' rydym yn dewis a dethol testunau, themau a gweithgareddau ar gyfer lawr y dosbarth. Fe fydd pob aelod o staff yn ymchwilio ar gyfer pynciau diddorol ac yn paratoi'n drylwyr ar gyfer datblygu holl sgiliau o fewn rhain.



Mae'r llywodraeth yn datgan bod gennym ni fel ysgol rwymedigaeth gyfreithiol i drafod cynnydd disgyblion deirgwaith y flwyddyn, a rhaid i un o'r rhain fod ar ffurf adroddiad ysgrifenedig. Fel ysgol, rydym yn cynnig cyfarfod personol i chi i drafod disgyblion unigol yn ystod tymor yr Hydref, rhoddwyd gwahoddiad agored i weld eich plentyn o fewn ei amgylchedd gwaith yn ystod tymor y Gwanwyn. Cafodd pob rhiant adroddiad ysgrifenedig manwl ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Bydd pob adroddiad unigol ein disgyblion yn cynnwys nid yn unig cyrhaeddiad eich plentyn yn ystod y flwyddyn ond hefyd ffordd ymlaen/targedau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ysgol hefyd yn rhannu gweithgareddau a digwyddiadau trwy ddefnyddio llwyfannau cyfryngau lluosog fel Do-Jo, Facebook a Seesaw.






Mae Ysgol GWRh Glanyfferi wedi ymrwymo i ymdrin yn effeithiol â chwynion. Ein nod yw egluro unrhyw faterion nad ydych yn siŵr yn eu cylch.

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch ein gwneud yn ymwybodol o unrhyw faterion a allai fod gennych er enghraifft trafodaeth wyneb yn wyneb, galwad ffôn, e-bost neu neges 'Do-Jo' a byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddatrys y sefyllfa.

Fodd bynnag, os dymunwch mae polisi a gweithdrefnau cwynion yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol (er bod hwn yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd) mae copi hefyd ar gael ar gais: cysylltwch â Mrs Evans.




Parent Questionnaire Response

As a school we pride ourselves on an open door policy and appreciate any discussion, concerns and compliments you have as parents to share with us about the school. We have already evaluated the responses to your questionnaires and as a result I would like to share some key aspects that came to light.

2. Mae fy mhlentyn yn hoffi'r Ysgol 2. My child likes this school


8 ymateb



The happiness of our pupils is vital to us at school as this is the foundation of a successful learning journey. We use a number of strategies that develop health and wellbeing skills such as 'Speakr', cycle time, ELSA sessions to name but a few.

7. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau 7. There is a good variety of activities, including trips or visits


8 ymateb



All stakeholders in our school are given the opportunity to be involved in planning a balanced curriculum for our pupils. Parents receive a form setting out the theme of our term and the opportunity to share relevant ideas and connections. Through 'pupil voice' we can select themes and activities for the classroom floor. Each member of staff will research for topics of interest and thoroughly prepare for the development of all the skills within each area of learning .


10. Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn 10. The school keeps me well informed about my child's progress

8 ymateb



8. Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr Ysgol 8. My child is making good progress in School

8 ymateb




The government states that we as a school have a legal obligation to discuss pupils' progress three times a year, and one of these must be in the form of a written report. As a school, we offer you a personal meeting to discuss individual pupils during the Autumn term, an open invitation was given to see your child within their working environment during the Spring term. Each parent received a detailed written report at the end of the academic year. The school also shares activities and events through the use of multiple media platforms such as Do-Jo, Facebook and Seesaw.

Every individual pupil report will include not only your child's attainment during the year but also a way forward/ targets for the future.


15. Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn, gwneud awgrymiadau neu nodi problem 15. I feel comfortable asking a question, making suggestions or pointing out a problem

8 ymateb



14. Rwy'n deall trefn yr Ysgol ar gyfer delio â chwynion 14. I understand the School's procedure for dealing with complaints

8 ymateb



Ferryside VCP is committed to dealing effectively with complaints. Our goal is to clarify any issues that you are not sure about.

There are a number of ways you can make us aware of any issues you may have for example a face-to-face discussion, phone call, email or 'Do-Jo' message and we will do our best to resolve the situation.

However, the school's complaints policy and procedures are available on the school's website (although this is currently being updated) a copy is also available on request: please contact Mrs Evans.

Darparu Cyfleusterau Toiled

Mae'r toiledau ar gyfer disgyblion o'r Meithrin i Flwyddyn 6 ar lawr waelod yr ysgol ac o fewn Bloc 6. Mae yna ddau dŷ bach ciwbigol ar gyfer y Merched. Mae yna ddau tŷ bach ciwbigol i'r bechgyn. Mae yna doiledau sydd wedi addasu o ran uchder ar gyfer y rhai sydd ei hangen. Mae yna un tŷ bach ar gyfer anabledd, sydd yn cynnig cawod a bwrdd newid. Mae gan bob tŷ bach dŵr oer, dŵr poeth, papur tŷ bach, sebon a thyweli papur/sychwr i sychu dwylo.

Mae'r tai bach yn cael eu glanhau gan staff glanhau a chyflogir gan yr Awdurdod Leol.

Provision of toilet facilities

The toilets for pupils from Nursery to Year 6 are on the ground floor of the school and within Block 6. There are two cubical toilets for the Girls. There are two cubical toilets for the boys. The small toilets here have been adjusted in terms of height. There is one toilet for the disabled, which offers a shower and changing table. All toilets have cold water, hot water, toilet paper, soap and paper towels/dryer to dry hands.

The toilets are cleaned by cleaning staff employed by the Local Authority.

Ystadegau Presenoldeb

Roedd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024 – 2025 yn 91.00%. Yn dilyn canllawiau'r AALl, mae gweithdrefnau ein hysgol fel a ganlyn:

- Mewn achos o absenoldeb gofynnir i rieni hysbysu'r ysgol dros y ffôn, Do-Jo neu e-bost fel arall bydd absenoldeb eich plentyn yn cael ei ystyried yn anawdurdodedig.
- Pan fydd presenoldeb yn disgyn yn is na tharged yr ysgol o (%) bydd yr ysgol yn anfon y llythyr presenoldeb cyntaf i rieni.
- Os na cheir gwelliant, anfonir yr ail lythyr presenoldeb i'r rhieni yn eu gwahodd i fynychu cyfarfod i drafod y mater ymhellach.
- Yn olaf, gwneir atgyfeiriad i'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion os bydd rhagor o absenoldebau anawdurdodedig.

Mae'r ystadegau isod yn ymwneud â nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig a fynegir fel canran o gyfanswm nifer y presenoldebau posibl yn y tymor hwnnw.

Tymor	Presenoldeb	Absenoldeb Awdurdodedig	Absenoldeb Anawdurdodedig
Hydref 2023	*92.91%*	*7.09%*	*0%*
Gwanwyn 2024	*92.67%*	*6.46%*	*0.87%*
Haf 2024	*88.88%*	*9.79%*	*1.33%*

Attendance Statistics

Attendance for the academic year 2024 – 2025 was 91.00%. Following LEA guidelines, our school procedures are as follows:

- *In the event of an absence parents are requested to inform the school by phone, Do-Jo or e-mail otherwise your child's absence will be considered as unauthorised.*
- *When attendance drops below the school target of (%) the school will send the first school attendance letter to parents.*
- *If no improvement occurs, the second attendance letter will be sent to parents, inviting them to attend a meeting to discuss the matter further.*
- *Finally, a referral to the School Safeguarding and Attendance Team will be made in the event of further unauthorised absences.*

The following statistics relate to the number of authorised and unauthorised absences expressed as a percentage of the total number of possible attendances in that term.

Term	*Attendance*	*Authorised*	*Unauthorised*
Autumn 2023	*92.91%*	*7.09%*	*0%*
Spring 2024	*92.67%*	*6.46%*	*0.87%*
Summer 2024	*88.88%*	*9.79%*	*1.33%*

Tymhorau Ysgol 2025 – 2027

Tymor	Tymor yn dechrau	Hanner tymor	Diwedd y tymor
Haf 2025	Dydd Llun 28ain Ebrill	Dydd Llun 26ain Mai - Dydd Gwener 30ain Mai	Dydd Llun 21ain Gorffennaf
Hydref 2025	Dydd Mawrth 2ail Medi	Dydd Llun 27ain Hydref - Dydd Gwener 31ain Hydref	Dydd Gwener 19eg Rhagfyr
Gwanwyn 2026	Dydd Llun 5ed Ionawr	Dydd Llun 16eg Chwefror - Dydd Gwener 20fed Chwefror	Dydd Gwener 27ain Mawrth
Haf 2026	Dydd Llun 13eg Ebrill	Dydd Llun 25ain Mai - Dydd Gwener 29ain Mai	Dydd Llun 20fed Gorffennaf
Hydref 2026	Dydd Mercher 2ail Medi	Dydd Llun 26ain Hydref - Dydd Gwener 30ain Hydref	Dydd Gwener 18fed Rhagfyr
Gwanwyn 2027	Dydd Llun 4ydd Ionawr	Dydd Llun 8fed Chwefror - Dydd Gwener 12fed Chwefror	Dydd Gwener 19eg Mawrth
Haf 2027	Dydd Llun 5ed Ebrill	Dydd Llun 31ain Mai - Dydd Gwener 4ydd Mehefin	Dydd Mawrth 20fed Gorffennaf

Dyddiau HMS Penodol

- Dydd Llun 1af Medi 2025
- Dydd Mawrth 1af Medi 2026

Ar gyfer diwrnodau HMS Dynodedig i’r ysgolion, cysylltwch â'r ysgol. Fel arfer, mae gan ysgolion 5 diwrnod HMS yn ystod y flwyddyn academaidd (gan gynnwys y diwrnodau dynodedig). Ym mis Ionawr 2023 fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg osod Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a’r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023. Mae'r Rheoliadau'n cynyddu nifer y diwrnodau HMS o 5 i 6 diwrnod ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf (2025 i 2026).

Gwener y Groglith

- 3ydd Ebrill 2026
- 26ain Mawrth 2027

Gŵyl Fai

- 4ydd Mai 2026
- 3ydd Mai 2027

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r Llywodraeth. Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgil gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

School Terms 2025 – 2027

Term	Term begins	Half Term	Term Ends
Summer 2025	Monday 28th April	Monday 26th May – Friday 30th May	Monday 21st July
Autumn 2025	Tuesday 2nd September	Monday 27th October to Friday 31st October	Friday 19th December
Spring 2026	Monday 5th January	Monday 16th February to Friday 20th February	Friday 27th March
Summer 2026	Monday 13th April	Monday 25th May to Friday 29th May	Monday 20th July
Autumn 2026	Wednesday 2nd September	Monday 26th October to Friday 30th October	Friday 18th December
Spring 2027	Monday 4th January	Monday 8th February to Friday 12th February	Friday 19th March
Summer 2027	Monday 5th April	Monday 31st May to Friday 4th June	Tuesday 20th July

Designated INSET Days

- Monday 1st September 2025
- Tuesday 1st September 2026

For school specific INSET days, please contact the school. Usually, schools have 5 INSET days during the academic year (including the designated days). In January 2023 the Minister for Education and Welsh Language laid the Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2023. The Regulations increase the number of INSET days from 5 to 6 days for the next academic year (2025 to 2026).

Good Friday

- 3rd April 2026
- 26th March 2027

May Day

- 4th May 2026
- 3rd May 2027

Please note that this calendar is subject to any changes that may arise because of government policy decisions. We do not accept liability for any losses incurred in respect of altered holiday arrangements following such changes.

Datganiad o Wariant
Statement of Expenditure

Sefyllfa Ariannol – Ysgol GWRh Glanyfferi – Ebrill 2025

Financial Position – Ferryside VCP – April 2025

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2024/25.		Please see below a summary of your school's final outturn position for 2024/25.
	£	
Gwariant Net 2024/25	241,293	Net Expenditure 2024/25
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2024/25	-209,263	Formula Funding Allocation 2024/25
Diffyg Ariannol a Ddygwyd Ymlaen o 2023/24	142,431	Deficit Brought Forward from 2023/24
Diffyg Ariannol yn Cario Drosodd i 2025/26	174,461	Deficit Carried Forward to 2025/26